CYNGOR CYMUNED BETWS
Pwyllgor Hamdden

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Pwyllgor Hamdden yng Nglwb Rygbi y Betws ar Awst 9fed.2021 am 4 p.m.

Yn bresennol: Cyng ...Jose Picouto, Lynwen Phillips, Betsan Jones, Andrew Williams, Mike Jones

1. Dewis cadeirydd

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Betsan Jones ac eiliwyd gan y Cynghorydd Andrew Williams y dylid penodi'r Cynghoryd Mike Jones yn gadeirydd y Pwyllgor Hamdden ar gyfer 2021 -2022.

Cymeradwywyd gan bawb oedd yn bresennol.

2. Datblygu Cynlluniau Strategol

Cychwynnodd y Cadeirydd drafodaeth ar yr angen am gynllun strategol i fynd i'r afael â datblygu y 3 ardal hamdden.
Roedd y farn gyffredinol fel a ganlyn:

Heol y Felin -mae angen atgyweiriadau penodol i'r llythrennau.

Penderfynwyd bod angen i ni ystyried rhaglen o newid yr offer yn y maes chwarae - bydd yn rhaid darganfod ffynonellau cyllido.

Maescwarre-mater draenio i'w ddatrys yn gyntaf. Mae'r clerc yn sicrhau prisiau.

Nodwyd bod offer chwarae'n dirywio ac y bydd angen eu ailosod o fewn y 5 mlynedd nesaf yn ôl pob tebyg - ystyried grant fferm wynt MYB a 106 fel ffynhonnell ariannu.

Parc Blodau Betws - mae'r cyrtiau tenis segur yn aneniadol yn weledol a byddai pen uchaf y parc yn elwa o gael gwelliannau.

Cyflwynodd y Cynghorydd Williams gynllun drafft uchelgeisiol ar gyfer ailddatblygu'r cyrtiau tenis gan awgrymu cyflwyno nodweddion tirlunio pellach i'r ardal hyd at y bont droed.

Nodwyd Cafwyd trafodaeth gyffredinol ac roedd pawb yn cytuno bod y cynnig drafft cyntaf hwn yn un da. efallai byddai yn bosib cael grant Treftadaeth y Loteri Genedlaethol - Lleol a Lleoedd i Natur. Mae hyd at £ 250,000 ar gael o dan y gronfa hon.

Cynigiwyd gan y Cynghorydd.B.Jones ac eiliwyd gan y Cyng .L.Phillips ein bod yn mabwysiadu mewn egwyddor y cynnig cychwynnol drafft i gael gwared ar y cyrtiau tenis segur ac ymgymryd â thirlunio caled a meddal hyd at y bont droed.

2a Camau Nesaf

Amlinellodd y Cadeirydd y bydd y broses yn gofyn am:

Cynllun cychwynnol (y gellir ei ddiweddaru a'i ddiwygio'n ddiweddarach) i gael costau ar gyfer y seilwaith mawr.

Cyflwyno cais ar-lein (nodwyd nad oedd hyn yn ymrwymo'r cyngor i raglen waith ond y byddai'n cynorthwyo i sefydlu potensial.

Bydd OVW a Heritage Lottery yn darparu adborth.

Addasu cyflwyniad yn dilyn cymeradwyaeth gan y cyngor llawn.

Rhannu y cynigion gyda rhanddeiliaid.

3. Grantiau Eraill

Nododd y Cyng .L.Phillips fod Cadw Cymru yn Daclus wedi datblygu pecynnau ar gyfer sefydliadau cymunedol a byddant yn darparu blodau gwyllt, 5 coeden ffrwythau, a bylbiau a phlanhigion ar y gyfer ‘raised beds’

Derbyniwyd Ebost gan Philippa Try am Hwb Cydweithredol Cymunedol Rhydaman a Llandybie yn cynnig help gyda gwelliannau maesydd chwarae.

Penderfynwyd; bydd y Cynghorydd M.Jones yn dilyn hwn i fyny

4. Seddi Parc Betws

Cododd y Cynghorydd .Williams y mater ei bod yn ymddangos bod y seddi sydd wedi'u cuddio y tu ôl i'r Ardd Goffa yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau amheus.
Penderfynwyd ystyried ail-leoli y seddi fel rhan o ddatblygiadau yn y dyfodol

Daeth y cyfarfod i ben am 5.50p.m.